Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person

MANYLION Y SWYDD

Teitl y Swydd:	Cynorthwyydd Goruchwylio Canol dydd
Rhif Adnabod Gwerthuso y Swydd:	024SCH
Gradd:	1
Cyfadran:	Gwasanaethau Addysg a Chorfforaethol
Adran:	Addysg
Is-adran:	Ysgolion
Lleoliad:	Ysgol Gymraeg Penalltau
Yn atebol i:	Pennaeth

DIBEN Y SWYDD

Bod yn gyfrifol yn unigol, neu fel aelod o dîm, am sicrhau diogelwch, lles ac ymddygiad da disgyblion yn ystod amser cinio, yn unol ag arferion a gweithdrefnau'r Ysgol/Awdurdod Lleol.

MEYSYDD CANLYNIADAU ALLWEDDOL

- Goruchwylio disgyblion mewn mannau chwarae penodol yn unol ag arferion a gweithdrefnau'r Ysgol/Awdurdod Lleol.
- Goruchwylio a chynorthwyo disgyblion yn ystod amseroedd prydau bwyd, paratoi byrddau a dodrefn eraill yn y ffreutur a helpu i gynnal amgylchedd glân a diogel trwy gydol yr amser cinio.

PROFFIL MANWL O'R DASG

Goruchwylio disgyblion mewn mannau chwarae penodol yn unol ag arferion a gweithdrefnau'r Ysgol/Awdurdod Lleol:

- Monitro a sicrhau diogelwch disgyblion bob amser mewn ardaloedd penodol o dir yr ysgol
- Annog ymddygiad da ymhlith disgyblion, gan sicrhau bod ganddynt barch at ddisgyblion eraill a'u hamgylchedd
- Annog chwarae cadarnhaol a mwyhau gweithgareddau chwarae'r disgyblion ar yr iard a thu fewn pan fo'r tywydd yn arw.
- Cofnodi a rhoi gwybod i Athro Dosbarth neu Bennaeth am unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau cyn gynted â phosibl.

- Cynorthwyo disgyblion sydd wedi cael damwain neu fân anaf gan ddilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt a sicrhau bod yr Athro Dosbarth neu'r Pennaeth wedi cael gwybod a bod cofnod yn cael ei gadw bob amser.

- Ymdrin â disgyblion sy'n dangos ymddygiad heriol yn unol ag arferion diogelu a pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Rhaid rhoi gwybod i'r Athro Dosbarth neu'r Pennaeth am bob digwyddiad a rhaid cadw cofnod lle bo'n briodol.

Goruchwylio a chynorthwyo disgyblion yn ystod amseroedd prydau bwyd, paratoi byrddau a dodrefn eraill yn y ffreutur a helpu i gynnal amgylchedd glân a diogel trwy gydol yr amser cinio:

- Annog bwyta'n iach a bod yn gwrtais wrth y bwrdd bwyd

- Cynorthwyo plant yn ystod amser prydau bwyd yn ôl yr angen. Bydd hyn yn cynnwys helpu plant llai i ddefnyddio cyllyll a ffyrc a goruchwylio cwrteisi'r bwrdd

- Sychu/glanhau unrhyw fwyd neu ddiod sydd wedi'i golli ar fyrddau neu ar y llawr gan ddefnyddio'r deunyddiau a ddarperir.

Cyfrifoldebau Cyffredinol:

- Yn brydlon ac yn barod i ddechrau dyletswyddau yn brydlon ar yr amser penodedig.

- Tynnu sylw'r Pennaeth at unrhyw feysydd hyfforddi neu ddatblygu a fydd yn cynorthwyo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y rôl.

- Gweithio fel rhan o dîm i ddarparu goruchwyliaeth ddiogel ac effeithiol amser cinio.

PERTHNASOEDD GWEITHIO ALLWEDDOL

Disgyblion
- Goruchwylio disgyblion yn ddyddiol, gan ddarparu cefnogaeth a chymorth lle bo angen.
- Rheoli ymddygiad heriol.
- Meddu ar empathi a dealltwriaeth a delio â sefyllfaoedd sensitif gyda gofal a thosturi.

Pennaeth ac Athrawon Dosbarth
- Cydweithio i ddarparu goruchwyliaeth ddiogel ac effeithlon o ddisgyblion yn ystod amser cinio.
- Rhoi gwybod am bob digwyddiad a damwain cyn gynted â phosibl.
- Derbyn cyfarwyddiadau cyffredinol ar weithgareddau gwaith o ddydd i ddydd.
- Darparu adborth ar y gwasanaethau a ddarperir a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella.

Rhieni
- Pan fo angen, cysylltu â rhieni ynghylch unrhyw ymholiadau a'u cyfeirio'n uniongyrchol at aelod priodol o staff.

CYFRIFOLDEBAU AM STAFF

- Dim yn gysylltiedig â'r rôl.

CYFRIFOLDEBAU AM ADNODDAU

- Sicrhau bod cyfarpar chwarae'n cael eu defnyddio'n briodol ac yn gyfrifol
- Defnyddio cyfarpar/deunyddiau glanhau yn ôl yr angen i lanhau gollyngiadau ac ati, gan sicrhau bod unrhyw gynhyrchion sy'n cynnwys cemegau yn cael eu defnyddio yn unol â'r canllawiau ac yn cael eu storio'n ddiogel ar ôl eu defnyddio.
- Lle bo angen, diweddaru cofnodion mewn perthynas â digwyddiadau a damweiniau gan sicrhau bod tystiolaeth a llwybrau archwilio clir pe bai unrhyw faterion diogelu yn codi.

AMGYLCHEDD GWAITH

- Bydd gwaith yn cynnwys cyfnodau o amser a dreulir dan do ac yn yr awyr agored lle bydd profiad o'r amodau canlynol:
    - Tywydd garw
    - Sŵn cymedrol
    - Amlygiad i wastraff o ollyngiadau bwyd ac ati.

- Bydd y gwaith yn cynnwys cyfnodau hir o gerdded a sefyll a bydd angen codi a phlygu.

- Bydd y gwaith yn cynnwys ymdrin ag ymddygiad heriol

GOFYNION YCHWANEGOL

Cyfyngiad Gwleidyddol:	Na
Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:	Plant Uwch
Gwiriad y Rhestr Wahardd:	Plant
Asesiad Meddygol Sylfaenol Cyn Cyflogaeth:	Na
Cofrestru:	Na

CYFRIFOLDEBAU CYFUNDREFNOL

Yn deall ac yn gallu dangos egwyddorion cyfrinachedd.

Yn gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, gan gynnwys cydnabod y ddyletswydd i ddiogelu oedolion, plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Yn deall ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau'r Cyngor.

Yn dangos ymrwymiad i ddatblygiad personol parhaus.

Mae'r dyletswyddau a chyfrifoldebau yn anodd eu diffinio'n fanwl a gallant amrywio o dro i dro heb newid natur gyffredinol y dyletswyddau neu lefel y cyfrifoldebau dan sylw. Felly, mae disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y gofyn, ar yr amod na fydd natur gyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau yn newid.

MANYLEB Y PERSON

	HANFODOL	DELFRYDOL
CYMWYSTERAY	Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol ar gyfer y swydd.	Tystysgrif Cymorth Cyntaf Cymwysterau Rhifedd a Llythrennedd Sylfaenol.
GWYBODAETH	Dealltwriaeth o rôl Goruchwyliwr Canol Dydd a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phlant.	Dealltwriaeth o egwyddorion sylfaenol diogelu.
SGILIAU	Gallu dilyn cyfarwyddiadau a gweithdrefnau yn unol â pholisïau ysgol y cytunwyd arnynt Gallu cyfathrebu â phlant gyda gofal, empathi a dealltwriaeth. Gallu delio ag ymddygiad heriol. Gallu gweithio fel rhan o dîm.	Sgiliau Cymraeg.
PROFIAD	Nid yw profiad yn hanfodol	Profiad o weithio gyda phlant mewn rôl ofalu neu oruchwylio.
ARALL	Mae'r swydd yn amodol ar wiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (a elwid yn flaenorol yn Gofnodion y Swyddfa Droseddol – Gwiriad CRB). Ymrwymiad i hyfforddiant personol ac arfarniadau gwaith Ymrwymiad i gyfle cyfartal Agwedd frwdfrydig a chadarnhaol Gallu gweithio'n hyblyg o fewn gofynion y swydd	

AWDURDODI'R SWYDD

PENNAETH GWASANAETH:		**DYDDIAD:**	
RHEOLWR:		**DYDDIAD:**	
AD:	Leanne Coote	**DYDDIAD:**	07/07/2022

ADOLYGU'R SWYDD

SWYDDOG:	Janine Harrington	**DYDDIAD:**	16/09/2025
SWYDDOG:		**DYDDIAD:**	
SWYDDOG:		**DYDDIAD:**	